

Prifysgol Wreccsam Wrexham University

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wreccsam a gynhaliwyd ddydd Gwener 6ed Hydref 2023 am 9am yn Ystafell 1887, Prifysgol Wreccsam, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW

Yn bresennol: Dr Leigh Griffin
(Cadeirydd) Amy
Anglesea
Paul Barlow
Richard Campbell
Yr Athro Martin Chambers
Yr Athro Maria Hinfelaar
Maisie Head
Dr Karen Heald
Dr Sarah Dubberley Yr
Athro Sandra Jowett
Diane McCarthy
Jayne Owen
David Subacchi
Will Naylor
Fabrizio Trifiro
Richard Thomas
Maureen Wain
Liam Wynne

Swyddogion: David Clarke (*Clerc i'r Bwrdd*)
David Elcock (*Cyfarwyddwr Cyllid
Gweithredol*) Yr Athro Aulay Mackenzie
(*Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro*) Yr Athro
Richard Day (*Dirprwy Is-Ganghellor
Ymchwil*)
Yr Athro Ieuan Ellis (*Dirprwy Is-ganghellor Prosiectau
Newid Strategol*) Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr
Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)

Yn mynychu: Elen-Mari Nefydd (*Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg*)
ar gyfer WBG2324/10
James Dawson (*Cyfarwyddwr SPSA*) ar gyfer eitemau
WBG2324/14 a WBG2324/15

Ymddiheuriadau: Claire Homard

WBG2324/1	Cwrteisi ac ymddiheuriadau	
-----------	----------------------------	--

	<p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd Sarah Dubberley, Jayne Owen, Fabrizio Trifiro a Will Naylor i'w cyfarfod Bwrdd cyntaf. Hwn hefyd oedd cyfarfod cyntaf Clerc newydd y Bwrdd.</p>	
WBG2324/2	Datganiadau gwrthdaro rhwng buddiannau	
	Nid oedd unrhyw ddatganiadau rhwng buddiannau yn ymwneud ag eitemau ar yr agenda.	
WBG2324/3	Cofnodion y cyfarfod diwethaf	
	<p>Derbyniwyd: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2023</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fewnosod paragraff ychwanegol o dan 22.125 i adlewyrchu ymhellach hyd a lled trafodaeth y Bwrdd ac ymgysylltiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar faterion allweddol sy'n ymwneud ag Ymchwiliad Pryderon yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.</p>	DC
WBG2324/4	Materion yn codi	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar faterion yn codi o gofnodion mis Gorffennaf.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/5	Adroddiad Undeb y Myfyrwyr	

Derbyniwyd:

Adroddiad Effaith Undeb y Myfyrwyr 2022-23

Adroddwyd:

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad a chyflwyniad gan Lywydd ac Is-Lywydd Undeb y Myfyrwyr. Dywedwyd bod sgysiau cadarnhaol wedi cael eu cynnal gyda VCET a staff cymorth i fwrw ymlaen ag addewidion maniffesto swyddogion etholedig, a oedd yn cynnwys mynediad haws at wybodaeth am gymorth ariannol, mwy o ddigwyddiadau diwylliannol (gan gynnwys y Gymraeg) a hyrwyddo llais myfyrwyr gweithredol yn y sefydliad. Roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn ystod eang o feysydd eraill gan gynnwys;

- Creu portffolio graddedigion
- Cymorth ymarferol ac arweiniad ynghylch costau byw
- Cefnogi cynnydd yn y galw am wasanaeth cynghori Undeb y Myfyrwyr
- Gweithio gyda'r Brifysgol i wella WiFi ar y campws
- Parhau i ddefnyddio Unitu i gefnogi llais y myfyriwr
- Ymdrechion i gynyddu cyfranogiad myfyrwyr mewn etholiadau Undeb y Myfyrwyr
- Ymgyrchoedd gan gynnwys urddas mislif, 'Help Yourself', 'Cup Again?', ac Wythnos Lles
- Hyrwyddo cynaliadwyedd gan gynnwys ymdrech i annog myfyrwyr i gefnogi busnesau lleol yn Wrecsam, a chyflwyno cyfnewid dillad ar y campws a arweiniodd at Undeb y Myfyrwyr yn cael ei restru fel 'Rhagorol' yng Ngwobrau Effaith Werdd Undeb y Myfyrwyr
- Cyflawni gweithgareddau'r Wythnos Groesawu yn llwyddiannus
- Ymarfer ailfrandio ar gyfer Undeb y Myfyrwyr.

Diolchodd y Bwrdd i Undeb y Myfyrwyr am gyflwyniad rhagorol a chafodd ehangder ac ansawdd gwaith Undeb y Myfyrwyr ei ganmol. Llongyfarchwyd Undeb y Myfyrwyr ar ganlyniadau NSS 2022-23 a oedd wedi'i osod yn y safle cyntaf yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth wedyn am ystod gwaith Undeb y Myfyrwyr, ac yn ystod y drafodaeth honno nodwyd:

	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd nifer yr achosion cyngkori a oedd yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol yn uchel, ac roedd wedi codi'n sylweddol ers pandemig Covid-19. Roedd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr â staff academiaidd i helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r broses amgylchiadau esgusodol a hyrwyddo defnydd priodol • Roedd swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn eistedd ar nifer uwch o bwyllgorau'r Brifysgol a'r Bwrdd, a oedd yn cael ei groesawu gan y Bwrdd • Cydweithio agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ar iechyd meddwl a lles • Gwaith parhaus i ymgysylltu myfyrwyr TNE a'r rhai o sefydliadau partner ag Undeb y Myfyrwyr. <p>Gwahoddwyd aelodau i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Myfyrwyr, naill ai fel arsylwyr neu i gyflwyno eitemau lle bo hynny'n briodol. Byddai dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2023-24 yn cael eu dosbarthu i'r Bwrdd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	AA DC
WBG2324/6	Adroddiad yr Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr	
	<p>Derbyniwyd: Ymateb ysgrifenedig i adroddiad Effaith Undeb y Myfyrwyr, Diweddariad llafar ar weithgarwch arall</p> <p>Adroddwyd Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar amrywiaeth o faterion fel a ganlyn:</p> <p><u>WBG2324/6.1 Undeb y Myfyrwyr</u> Roedd yn amlwg o'r cyflwyniad a gafwyd pam roedd Undeb y Myfyrwyr mor uchel ei barch, yn fewnol ac yn allanol, fel yr adlewyrchir gan y canlyniad NSS, a'i gosododd ar y brig yng Nghymru. Cafodd y Llywydd a'r Is-lywydd eu canmol am eu hagwedd broffesiynol, a chanmolwyd ehangder gwaith cadarnhaol Undeb y Myfyrwyr. Byddai'n bwysig i Undeb y Myfyrwyr barhau i gymryd rhan mewn gwaith parhaus ynghylch cynlluniau gweithredu sefydliadol; nodwyd bod llais y myfyrwyr wedi bod o fudd mawr i ddatblygiadau gan gynnwys adnewyddu rheoliadau academiaidd. Nodwyd bod Undeb y Myfyrwyr wedi cael cynnydd o 21% yn y gyllideb ar gyfer 2023-24, ac roedd yn cael ei annog i ddefnyddio'r adnodd ychwanegol hwnnw i gynnal ei fomentwm rhagorol.</p> <p><u>Materion eraill</u> Roedd y Brifysgol wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ac ymweliadau proffil uchel dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Phartneriaeth Porth Wrecsam. Nodwyd bod y gweithgaredd hwn, sy'n cael ei groesawu, wedi ychwanegu at deimlad campws prysur ar ddechrau'r tymor. Tynnwyd sylw at effaith mwy o weithgarwch ar argaeledd meysydd parcio, ac mae angen rheoli'r campws yn ofalus.</p>	

	<p>Roedd yr Is-Ganghellor wedi darparu amrywiol gyfweiliadau yn y cyfryngau ynghylch canlyniad cyhoeddiad diweddar y llywodraeth i ganslo rhannau o brosiect HS2, a'r effaith bosibl ar ranbarth Gogledd Cymru.</p> <p>Roedd ail-frandio'r Brifysgol yn ddiweddar wedi cael derbyniad da, gydag adborth cadarnhaol iawn ar ffresni ac eglurder y brand. Byddai digwyddiad lansio allanol yn cael ei gynnal ar 25ain Hydref, a gwahoddwyd holl aelodau'r Bwrdd i'w fynychu. Llongyfarchodd yr aelodau'r holl staff a oedd yn rhan o'r ymarfer ailfrandio llwyddiannus.</p> <p>Penderfynwyd NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/7	Tuag at 2030: Gweledigaeth a Strategaeth	
	<p>Derbyniwyd: Cwmpas, methodoleg ac amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu a chymeradwyo Gweledigaeth a Strategaeth newydd y Brifysgol ar gyfer 2030.</p> <p>Adroddwyd: Cafodd y Bwrdd gynnig gan y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol a oedd yn ddiweddar wedi ymuno am gyfnod penodol gyda chylch gwaith deul; i archwilio strwythurau a systemau sy'n goruchwyllo sicrwydd ansawdd, gan gynnwys adolygiad effeithiolrwydd o'r Bwrdd Academiaidd, ac i arwain y gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r cynllun strategol newydd.</p> <p>Nodwyd cynnig a oedd yn cynnwys cynnal dadansoddiad SWOT llawn gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfarfodydd unigol gyda'r holl lywodraethwyr i driongli safbwyntiau. Y bwriad oedd sefydlu dealltwriaeth o fyfyrwyr, staff, llywodraethwyr a chanfyddiadau allanol o'r Brifysgol. Byddai'r cyfweiliadau hyn yn cynnwys 'meddwl heb orwelion' ar y math o sefydliad yr oedd rhanddeiliaid am i Brifysgol Wreccsam fod, y ffactorau galluogi a allai helpu i gyflawni hynny, ac ystyried sut y gallai hynny droi'n adnodd sydd ar gael. Byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i Ddatganiad Cenhadaeth y Brifysgol, sut mae gwerthoedd yn cael eu 'byw a'u hanadlu' o fewn y sefydliad, a'r hyn y gellid ei ddefnyddio'n ddefnyddiol fel mesurau llwyddiant. Byddai dadansoddiad SWOT a themâu sy'n codi dro ar ôl tro o gyfweiliadau â rhanddeiliaid yn cael eu hadolygu'n fanylach yn ystod trafodaeth hanner diwrnod yn Niwrnod Strategaeth y Bwrdd ym mis Ionawr 2024. Byddai'r strategaeth ddrafft yn cael ei datblygu ymhellach cyn cyfarfod y Bwrdd Academiaidd ym mis Mehefin a byddai Bwrdd y Llywodraethwyr yn ei chymeradwyo'n derfynol ym mis Gorffennaf 2024.</p> <p>Nodwyd bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â llais y myfyriwr, gyda chymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein a chynlluniau ar gyfer ymgynghori â myfyriwyr yn y cam strategaeth ddrafft.</p> <p>Nododd yr aelodau hefyd y byddai angen rheoli ymgysylltu allanol yn ofalus, gan gymryd gofal i nodi rhanddeiliaid allweddol a chysoni ystod o adborth yn neges gydlynol. Byddid yn ymdrechu i fanteisio i'r eithaf ar y rhwydweithiau a'r cysylltiadau presennol, gan ddefnyddio'r aelodau staff a'r fforymau mwyaf priodol.</p>	

	<p>Awgrymodd yr aelodau y byddai myfyrio ar sut mae'r Brifysgol yn dadansoddi cystadleuaeth a'r dirwedd recriwtio AU yn bwysig i sicrhau bod y strategaeth sy'n dod i'r amlwg yn unigryw yn y farchnad. Nodwyd hefyd y byddai cydweithio yn thema bwysig, gan gynnwys partneriaethau posibl â sefydliadau rhanbarthol a oedd wedi cael eu hystyried yn gystadleuwyr o'r blaen.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYO cwmpas, methodoleg ac amserlen datblygu a chymeradwyo Gweledigaeth a Strategaeth newydd y Brifysgol ar gyfer 2030.</p>	
WBG2324/8	Campws 2025	
	<p>Derbyniwyd: Diweddariad ar Gampws 2025.</p> <p>Adroddwyd:</p> <p><u>Ffordd y Deon</u> Adroddwyd bod gwerthu Ffordd y Deon i Bellway Homes am £5.25m (a TAW) i fod i gael ei gwblhau yr wythnos honno. Mynegodd y Bwrdd eu rhwystredigaeth ynghylch yr amser a gymerwyd i gwblhau'r gwerthiant, gan gydnabod mai ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol oedd yn gyfrifol am hyn. Cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a chydweithwyr eu canmol gan y Bwrdd am eu dull ymrwymedig a chyson drwy gydol y broses.</p> <p><u>Dyraniad Cyllid CCAUC</u> Roedd y Brifysgol yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i ddyrannu £750k o gyllid CCAUC i fuddsoddi mewn cyfleusterau presennol. Roedd y cynigion yn cynnwys adnewyddu pedair ystafell addysgu a gofod labordy presennol, adnewyddu coridor, arwyddion newydd a mynedfa a fyddai'n helpu i greu 'Ardal Gwyddoniaeth a Pheirianeg' a rhoi hwb i ddarpariaeth y gyfadran mewn Peirianeg ochr yn ochr â phrosiect EEOC. Nodwyd mai'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau fyddai haf 2024.</p> <p>Ystyriwyd y cynigion ac fe'u cefnogwyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw y byddai hwn yn fuddsoddiad strategol rhagorol ac yn ddefnydd priodol o gyllid CCAUC.</p> <p>Penderfynwyd: CYMERADWYODD y Bwrdd ddyraniad cyfalaf CCAUC o £750k gan gydnabod y byddai dogfennau tendro ac achosion busnes manwl yn dilyn.</p>	
WBG2324/9	Achos Busnes EEOC	
	<p>Derbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Cytundeb Cyllido EEOC (ii) Achos Busnes EEOC <p>Adroddwyd:</p>	

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gynnydd prosiect y Ganolfan Menter Peirianeg ac Opteg (EEOC), gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cymeradwyo'r achos busnes llawn a fyddai'n cael ei ystyried gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2023. Os bydd yn llwyddiannus, byddai cyllid yn cael ei ryddhau yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda'r bwriad o ddechrau ar y gwaith ym mis Chwefror 2024. Roedd yr achos busnes, gan gynnwys ymrwymiad ariannol y prosiect (cyfalaf a refeniw), yr amcanion gwario, a mabwysiadu telerau ac amodau cyllid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn amodol ar gymeradwyaeth llawn y Bwrdd.

Yn dilyn proses gaffael drylwyr, nodwyd bod Wynne Construction wedi'i benodi'n brif contractwr ar gyfer adeiladu'r EEOC. Nodwyd bod amcangyfrif o gost y prosiect cyfalaf wedi codi, wedi'i yrru'n bennaf gan chwyddiant mewn costau adeiladu, o £9.85m i £13.25m. Cytunwyd gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y byddai'r costau cyfalaf ychwanegol yn cael eu hariannu drwy £1.7m o grant ychwanegol y Fargen Twf a £1.7m o arian cyfatebol ychwanegol gan Brifysgol Wrecsam (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd yn yr Achos Busnes Llawn). Nid yw cyfanswm y cyfraniad refeniw arfaethedig wedi newid, gyda'r model yn rhedeg dros ddeuddeg mlynedd hyd at 2035/36. Dywedwyd y byddai llawer o'r costau arfaethedig yn dod o gyllidebau presennol ac wedi cael eu nodi fel arian cyfatebol, ond nid fel costau ychwanegol newydd. Roedd costau ychwanegol wedi cael eu lliniaru cymaint â phosibl.

Awgrymwyd y gallai'r Brifysgol ddymuno adolygu pecynnau tendro is-contractwyr a gyhoeddwyd gan Wynne Construction i gynnal goruchwyliaeth gadarn o'r dyluniad a'r gwaith adeiladu. Nodwyd, drwy gydol y broses dendro gydag Wynne Construction, y nodwyd na ddylai cyfanswm y gost fod yn fwy na'r gwariant cyfalaf a amlinellwyd a phennwyd y contract am bris penodol.

Nodwyd mai'r uchelgais oedd i adeilad EEOC helpu i ysgogi'r economi ranbarthol drwy ymchwil ac arloesedd, ac roedd y Brifysgol yn hyderus y byddai'n cyflawni'r allbynnau penodedig. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd strategol y prosiect, gan fod yn ofalus ynghylch y cynnydd yn y gost oherwydd chwyddiant a'r effaith ariannol bosibl ar y Brifysgol. Adroddwyd bod y Brifysgol yn disgwyl i'r costau cyfalaf ychwanegol hyn gael eu gwrthbwyso yn y tymor hir gan ffactorau gan gynnwys yr effaith gadarnhaol ar recriwtio myfyrwyr o ganlyniad i gael cyfleuster blaenllaw, ac adnewyddu adeiladau hŷn gydag adeilad arbed ynni mwy effeithlon a fyddai'n lleihau gorbenion. Byddai'r effaith ariannol, a'r sicrwydd bod modd rheoli'r gost net i'r Brifysgol, yn parhau i gael ei monitro drwy'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

Penderfynwyd:

CYTUNODD y Pwyllgor i:

	<ul style="list-style-type: none"> • CYMERADWYO ymrwymiad ariannol y prosiect (cyfalaf a referniw) • CYMERADWYO mabwysiadu'r amcanion gwario • CYMERADWYO mabwysiadu telerau ac amodau cyllido'r Bwrdd Uchelgais, yn amodol ar adolygiad cyfreithiol. 	
WBG2324/10	Strategaeth Cyfrwng Cymraeg	
	<p><i>Mynychodd Elen-Mai Nefyn (Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg) ar gyfer yr eitem hon</i></p> <p>Derbyniwyd: Adroddiad ar Cyfle: Strategaeth Cyfrwng Cymraeg</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg ar gynnydd Strategaeth Cyfrwng Cymraeg Cyfle. Nodwyd fod Cyfle yn air Cymraeg sy'n golygu 'cyfle', a ddewiswyd fel teitl y strategaeth gan mai'r prif ysgogydd oedd rhoi cyfle i staff a myfyrwyr ymgysylltu â'r cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Sefydlwyd Cyfle yn 2022 mewn ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Deddf Mesurau'r Iaith Gymraeg. Ei nod oedd hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, gan godi ymwybyddiaeth a gwelededd o'r cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol.</p> <p>Adroddwyd bod gan y Brifysgol lawer i'w ddathlu o ran cynnydd, ac roedd blwyddyn gyntaf brysur wedi golygu bod y taflwybr data wedi cael ei weddnewid gyda mwy o fyfyrwyr yn cymryd credydau yn Gymraeg. Y camau nesaf fyddai i'r Brifysgol wella ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy barhau i wreiddio'r Gymraeg mewn meysydd cwricwlwm, gan gynnwys lechyd ac Addysg Perthynol, a lefelau uwch o staff yn ymwneud â'r cynllun Cymraeg yn y Gwaith.</p> <p>Cymeradwyodd a chefnogodd y Bwrdd y gwaith pwysig hwn a chanmolodd effaith a brwdfrydedd y Pennaeth Datblygu Cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y byddai cefnogaeth y Bwrdd i gryfhau a chynnal y gwaith hwn yn bwysig. Nododd yr aelodau yr heriau a wynebir wrth gyflawni'r strategaeth hon, gan gynnwys newydd-deb ei natur sy'n dod i'r amlwg, capasiti'r Pennaeth Cyfrwng Cymraeg ac adnoddau ychwanegol cyfyngedig i hwyluso twf gwirioneddol, ac ymgysylltu â'r gymuned myfyrwyr a staff yn effeithiol i wneud newid ystyrion.</p> <p>Nodwyd y gallai amgylchedd dwyieithog ychwanegu gwerth at bartneriaethau rhyngwladol, a nodwyd bod cyfleoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg a chael dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn dod yn fwyfwy deniadol i fyfyrwyr rhyngwladol.</p> <p>Nodwyd hefyd, lle'r oedd y strategaeth wedi llwyddo i wreiddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm, ei bod wedi bod yn llwyddiannus dros ben.</p>	

	<p>Adroddwyd bod myfyrwyr Plismona yn barod ar gyfer cyflogwyr o ganlyniad i ymgysylltu â modiwlau Cymraeg ac y dylid dathlu'r model hwnnw fel enghraifft o arfer gorau mewn cyflogadwyedd. Awgrymodd yr aelodau y gallai'r Brifysgol wneud mwy i farchnata'r llwyddiannau hyn o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus.</p> <p>Trafododd y Bwrdd sut y gallai llywodraethwyr ddangos arweiniad wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio cwrteisi a chyfarchion Cymraeg sylfaenol mewn gohebiaeth ysgrifenedig a llafar.</p> <p>Cytunodd y Cadeirydd i ystyried hyn gyda golwg ar gyfathrebu ymhellach â'r Bwrdd. Awgrymwyd hefyd y gellid ymestyn y cynllun Cymraeg yn y Gwaith, a oedd yn darparu cyfleoedd dysgu i staff, i aelodau'r Bwrdd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	<p>LG</p> <p>EMN</p>
WBG2324/11	RDAPs	
	<p>Derbyniwyd: Diweddariad ar lafar ar gynnydd yn y broses Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (RDAPs).</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil a oedd yn tynnu sylw at nifer o ddiweddariadau allweddol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y Brifysgol wedi derbyn ceisiadau pellach am wybodaeth gan banel RDAPs • Trefnwyd ymweliad â'r Brifysgol gan banel RDAPs ar 25 a 26 Hydref • 11 Roedd arsylwadau pwyllgor wedi cael eu trefnu, gan gynnwys cyfarfod mis Tachwedd o Fwrdd y Llywodraethwyr • Roedd y panel yn olrhain ymatebion i adolygiad yr ASA ac roedd ganddo ddiddordeb mewn prosesau sy'n ymwneud â phartneriaethau • Roedd nifer fawr o geisiadau am wybodaeth wedi canolbwyntio ar Bwerau Dyfarnu Graddau Addysgu (TDAP) yn hytrach na RDAPs, ac ystyriwyd bod hynny yn golygu bod y panel yn ceisio sicrwydd ehangach ar brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol • Bu'r Brifysgol yn llwyddiannus mewn nifer o grantiau ymchwil newydd, a fyddai'n cael eu cyhoeddi'n ffurfiol yn fuan <p>Diolchodd y Bwrdd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil a chydweithwyr am eu gwaith parhaus ar RDAPs, a chroesawodd ymgysylltu parhaus â phanel RDAPs.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/12	Alldro Rhagamcanol 2022/23	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar alldro rhagamcanol 2022/23 a oedd yn destun archwiliad allanol</p>	

	<p>Adroddwyd:</p> <p>Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol fod yna ddiffyg gweithredol rhagamcanol o (£1,537k), gyda diffyg cyffredinol net o (£2,383k) yn dilyn addasiadau i'r cynllun pensiwn. Roedd yr archwiliad allanol diwedd blwyddyn wedi dechrau ar 18 Medi ac felly roedd yr alldro'n amodol ar adolygiad a newid posibl, er nad oedd disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol.</p> <p>Adroddwyd bod y sefyllfa GIL yn cyfrif am oddeutu traean o'r diffyg cyffredinol. Roedd diffyg sylweddol o ran recriwtio myfyrwyr amser llawn yn y DU, a'r oedi wrth werthu Ffordd y Deon hefyd wedi cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, roedd arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi gwrthbwyso a lleihau'r diffyg a arweiniodd at welliant cyffredinol ar ragolwg mis Mai.</p> <p>Nodwyd y byddai digwyddiad ar ôl y fantolen yn cael ei greu ar gyfer gwerthu Ffordd y Deon, er mwyn gwneud nodyn ar y cyfrifon i egluro'r effaith.</p> <p>Nodwyd bod yr adroddiad hefyd wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, lle trafodwyd sefyllfa GIL yn faith. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y byddai camau gweithredu sy'n ymwneud â GIL yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor hwnnw, a byddai adroddiad i'r Bwrdd yn dilyn.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
<p>WBG2324/13</p>	<p>Partneriaethau Academaidd</p>	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar bartneriaethau academaidd</p> <p>Adroddwyd: Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro adroddiad ar bartneriaethau academaidd, a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oherwydd amser y flwyddyn roedd yn anodd darparu niferoedd cywir o fyfyrwyr ar draws yr holl bartneriaid. Byddai'r data hwn yn cael ei gynnwys mewn adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd • gwahoddwyd y Brifysgol i gyflwyno ar bartneriaeth Sri Lanka mewn Cynhadledd ASA, yn dilyn canlyniad llwyddiannus adolygiad i'r ddarpariaeth honno • roedd cynnig i ymestyn y bartneriaeth â Choleg Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei ystyried, er mwyn darparu ar gyfer llwybr i raglenni AaGIC a gomisiynir • roedd campws arfaethedig Manceinion wedi cael ei ohirio a byddai diweddariad llawn yn dod i gyfarfod nesaf y Bwrdd. Byddai'r Bwrdd yn ailystyried yr achos busnes pe bai'r Brifysgol yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig hwnnw 	

	<p>Holodd yr aelodau am y broses ar gyfer adnabod a monitro risg mewn perthynas â phartneriaethau. Adroddwyd bod piblinell ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol yn bodoli, gyda gwaith diwydrwydd dyladwy yn digwydd ac Adroddiad Risg Blynyddol ar Bartneriaethau yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, a allai hefyd gael ei dderbyn gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Nodwyd bod partneriaethau academaidd hefyd yn fater risg corfforaethol ac felly eu bod yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod Cam Gweithredu 9 IRR wedi nodi disgwyliad y byddai'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn cymeradwyaeth partneriaeth. Nodwyd bod prosesau cymeradwyo cyfredol wedi'u hamlinellu yn yr ymateb a gyflwynwyd i CCAUC ym mis Medi, a bod y Brifysgol yn aros am ymateb. Fodd bynnag, awgrymwyd, er gwaethaf adborth CCAUC, bod y Bwrdd yn teimlo bod angen mwy o sicrwydd arno o ran cymeradwyo partneriaid newydd. Cytunwyd bod angen set gliriach o feini prawf ar gyfer cymeradwyo, ochr yn ochr â diffiniadau o'r hyn a olygir gan 'risg uchel'. Byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.</p> <p>Croesawodd y Bwrdd y drafodaeth sydd ar y gweill ar gampws arfaethedig Manceinion, a nododd y byddai adolygiad ar sail tystiolaeth a'r camau nesaf arfaethedig yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p> <p><i>(Nodyn yr Ysgrifennydd – yn dilyn y cyfarfod cytunwyd y byddai'r cynnig i ymestyn y bartneriaeth gyda Choleg Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei ddosbarthu i'r Bwrdd i'w gymeradwyo drwy e-bost)</i></p>	<p>AM</p> <p>AM</p>
<p>WBG2324/14</p>	<p>NSS 2023</p>	
	<p><i>Roedd Cyfarwyddwr SPSA yn mynychu ar gyfer yr eitem hon</i></p> <p>Derbyniwyd: Adroddiad ar Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) 2023</p> <p>Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr SPSA fod y Brifysgol wedi derbyn canlyniadau NSS cadarnhaol. Roedd bodlonrwydd cyffredinol yn 81% o'i gymharu â 77% ar draws y sector a 75% ar gyfer Cymru, gan osod y Brifysgol yn y 3ydd safle yng Nghymru. Roedd y Brifysgol yn y safle 1af yng Nghymru ar gyfer asesu ac adborth, addysgu ar fy nghwrs, llais y myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o feysydd roedd y Brifysgol uwchlaw meincnod y sector a/neu Gymru. Lle'r oedd meysydd wedi gostwng yn is na bodlonrwydd o 70%, roedd CCAUC am i gynlluniau gweithredu gael eu rhoi ar waith. Gan fod y canlyniadau NSS wedi'u derbyn yn hwyrach na'r blynyddoedd blaenorol, nodwyd bod y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu yn parhau ac y byddai fersiynau terfynol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.</p> <p>Nododd y Bwrdd y canlyniad NSS cadarnhaol iawn, a chanmolodd allu'r Brifysgol i gynnal y canlyniadau cadarnhaol hynny dros nifer o flynyddoedd. Tynnodd yr aelodau sylw'n benodol at y meysydd lle</p>	

	Roedd Wrecsam yn y safle 1af yng Nghymru, a nododd fod rhai	
--	---	--

	<p>rhaglenni yn y safle 1af yn y DU. Roedd hyn yn glod enfawr i staff o ansawdd uchel a gwaith rhagorol Undeb y Myfyrwyr.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad CYTUNO y byddai'r Is-Ganghellor yn diolch i'r holl staff ar ran y Bwrdd</p>	MH
WBG2324/16	Adroddiad y Cadeirydd	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad llafar gan y Cadeirydd</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cadeirydd a oedd yn cynnwys y diweddariadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Prifysgol Wrecsam wedi cynnal cyfarfod mis Hydref o Gadeiryddion Prifysgolion Cymru. Thema trafod oedd y disgwyliadau cynyddol ar Fyrddau, a nodwyd mater ymrwymiad amser llywodraethwyr • Roedd Llywodraeth Cymru yn wynebu toriadau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod, ac er ei bod yn ymddangos bod Addysg wedi'i diogelu rhywfaint, roedd disgwyl y byddai'r sector yn wynebu gwasgfa ariannol o ran cyllid grant. Roedd CCAUC wedi gofyn am gynlluniau ariannol 3-5 mlynedd gan Brifysgolion i hysbysu CTER. Nodwyd bod y Gweinidog Addysg yn hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng darparwyr ar y ddealltwriaeth na fyddai mwy o arian ar gael yn rhwydd, tra bod Prifysgolion Cymru wedi comisiynu gwaith ar gwmpas arbedion cost mewn Sefydliadau Addysg Uwch. • Roedd CTER wedi cyhoeddi Simon Pirote fel Prif Weithredwr, ac roedd rhagor o benodiadau i'r Bwrdd wedi cael eu gwneud. Roedd y Gweinidog Addysg wrthi'n pennu amcanion strategol CTER a oedd yn debygol o gynnwys cynyddu llais y dysgwr wrth wneud penderfyniadau, a chanolbwyntio ar gydweithio a phartneriaethau. Nodwyd y byddai'r Brifysgol a'r Bwrdd yn dechrau ystyried sut y gallai ymgysylltu'n rhagweithiol â'r CTER yn ystod y misoedd nesaf • Adroddwyd am lawer o newid mewn rolau uwch ar draws y sector, gan gynnwys ar lefel weithredol y Brifysgol ac ymysg Cadeiryddion Byrddau, a oedd wedi achosi rhywfaint o darfu. <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/17	Adroddiad y Bwrdd Academaidd	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023</p>	
	<p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a nododd yr Adroddiad Trosolwg o Safonau Blynyddol drafft a fyddai'n cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ym mis Tachwedd</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/18	Cynllun Gweithredu'r ASA	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gynnydd Cynllun Gweithredu Sicrwydd Ansawdd</p> <p>Adroddwyd: Derbyniodd y Bwrdd gynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd ym mis Medi. Adroddwyd fod y cynllun gweithredu yn mynd rhagddo ac ar darged. Nodwyd bod set ddiwygiedig o reoliadau academaidd wedi'u cymeradwyo, a oedd yn rhoi llawer mwy o eglurder i fyfyrwyr, a darparwyd Siart Gantt a oedd yn rhoi trosolwg o gynnydd gyda chamau gweithredu.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/19	Risg Gorfforaethol	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad rheoli risg corfforaethol, adroddiad risg a chrynodeb</p> <p>Adroddwyd: Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y cyfrifoldeb dros oruchwylio risg yn symud i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Cyfreithiol. Byddai adroddiad ar newidiadau i'r dull o reoli risg, a oedd yn cynnwys ystyried goddefgarwch risg, archwaeth risg, a sicrwydd pellach, yn cael ei dderbyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd cyflwyniad cliriach i'r Bwrdd o gamau gweithredu ac amserlenni hefyd yn cael ei ystyried. Croesawodd yr aelodau'r gwaith hwn a thynnodd sylw at bwysigrwydd defnyddio cofrestr risg i helpu'r Bwrdd i ganolbwyntio ei amser yn y ffordd fwyaf effeithiol.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/20	Adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Rheoli	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Rheoli 2022-23</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/21	Cofrestr o Fuddiannau Aelodau	
	<p>Derbyniwyd: Cofrestr o Fuddiannau Aelodau</p> <p>Adroddwyd:</p>	
	<p>Cyflwynodd y Clerc y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau a byddai e-bost yn cael ei anfon at yr aelodau yn gofyn am ddiweddarau unrhyw ddatganiadau sy'n weddill.</p> <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	DC
WBG2324/22	Pwyllgor Archwilio a Risg	

	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21ain Medi 2023</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd RSM wedi adrodd bod ymgysylltu ag archwiliadau mewnol wedi bod yn gadarnhaol, ac roedd canlyniadau archwiliadau wedi bod yn gadarnhaol heb unrhyw gamau gweithredu lefel uchel. Roedd y Pwyllgor yn bryderus bod RSM wedi nodi ei bod yn anodd cael gwybodaeth amserol o feysydd penodol. Cytunwyd y byddai rheolwyr meysydd perthnasol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd lle'r oedd adroddiadau ar eu meysydd yn cael eu derbyn. • Byddai'r Pwyllgor yn cynnal diddordeb parhaus yn sefyllfa Glyndwr Innovations Ltd mewn perthynas â lefel y risg a berir i'r Brifysgol <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	
WBG2324/23	Pwyllgor Strategaeth a Chyllid	
	<p>Derbyniwyd: Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a gynhaliwyd ar 29ain Medi 2023</p> <p>Adroddwyd: Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd nifer o eitemau sylweddol y cyfarfod yn gynharach ar agenda'r Bwrdd, gan gynnwys EEOC a Campus 2025 • Roedd set ddiwygiedig o Reoliadau Ariannol wedi cael ei chymeradwyo yn amodol ar fân ddiwygiadau, a oedd wedi cael eu gwneud ers hynny a chafodd y ddogfen wedi'i diweddarau ei rhannu â'r Bwrdd. Canmolodd yr aelodau'r Pennaeth Cyllid am y darn rhagorol hwn o waith. <p>Penderfynwyd: NODI'R adroddiad</p>	